

Mr Steve Bartley
Heatherwood Court Limited
5^{ed} Llawr
Harlech Court
Bute Terrace
Caerdydd
CF10 2FE

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost: John.powell@wales.gsi.gov.uk

29 Gorffennaf 2014

Annwyl Mr Bartley,

Parthed: Ymweliad â Heatherwood Court ar 8, 9 a 10 Gorffennaf 2014

Fel y gwyddoch fe gynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd ag ysbyty annibynnol Heatherwood Court ar 8, 9 a 10 Gorffennaf 2014. Fe wnaeth ein hymweliad amlygu meysydd sy'n nodedig ac mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Y berthynas dda a welwyd rhwng staff a chleifion yn ystod ein hymweliad.
- Gwelwyd fod ymddygiad heriol yn cael ei reoli'n dda gan staff.
- Roedd staff wedi cael amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol ac roedd 100% o'r staff wedi cael hyfforddiant mewn ataliaeth.
- Rhaglen dda o hyfforddiant therapi ymddygiad dilechdidol (DBT)¹.
- Gwelwyd fod y wardiau'n lân gyda safon addurno dda drwyddi draw yn yr ysbyty.
- Roedd amrywiaeth o wybodaeth ar gyfer cleifion ar gael ar lefel ward.

¹ Therapi seicolegol i bobl ag anhwylder personoliaeth ffiniol (BPD) yw therapi ymddygiad dilechdidol (DBT), yn enwedig rhai ag ymddygiad hunan-niweidiol neu feddyliau hunanladdol.

- Tystiolaeth glir o fewnbwn gan y Tîm Amlddisgyblaethol (TA) i'r broses cynllunio gofal.
- Mae The Hub² yn dal i fod yn fenter gadarnhaol iawn ac roedd yn braf nodi dechrau athroniaeth o fentergarwch.

Fe wnaeth ein hymweliad amlygu nifer o faterion. Fe ddarparon ni drosolwg ar lafar o'n pryderon ar gyfer eich rheolwr cofrestredig ar ddiwedd ein hymweliad ar 10 Gorffennaf 2014. Ceir crynodeb o'r rhain, sy'n cynnwys methiannau rheoleiddiol, yn y tabl isod:

Mater sy'n peri pryder	Rheoliad
<p>1. Fe archwiliwyd sampl o 3 set o gynlluniau gofal ar gyfer cleifion ac fe wnaed yr arsylwadau canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> Roedd gan glaf A ar ward Caernarfon gynllun gofal ar gyfer rheoli pwysau nad oedd yn crybwyll pwyso'r claf ac felly nid oedd modd monitro effeithiolrwydd y cynllun. Nid oedd gwybodaeth ynglŷn â dianc wedi'i chwblhau'n llawn ar gyfer claf A. Roedd diffyg llofnodion claf a gwybodaeth yn y 'cofnod o drafodaeth gyda'r cleient' ar gyfer claf A. Nid oedd lefelau'r arsylwadau yn y cynllun gofal ar gyfer claf A yn ddigon cadarn/penodol ac nid oedd yr arsylwadau 1:1 wedi'u diffinio'n ddigonol yn y ddogfen. Nid oedd y cynllun gofal rhwymo ar gyfer claf A yn ddigon manwl. Yn y cynllun gofal ar gyfer claf A ar ymosodedd geiriol tuag at gymheiriaid nid oedd manylion am ffactorau sbarduno ac nid oedd digon o fanylion ar gyfer ymdrin â'r ymddygiadau. Roedd diffyg tystiolaeth o adolygiadau sy'n cael eu cynnal ar gyfer claf A. Roedd diffyg tystiolaeth wedi'i dogfennu o ymwneud gan y claf â'r broses cynllunio gofal ar gyfer claf B ar ward Caernarfon. Ar gyfer claf C (Ward Aberteifi) roedd ei asesiad risg/cynllun rheoli risg ar gyfer 'diffyg cydymffurfio â meddyginiaeth' yn datgan bod angen cynllun gofal, ond nid oedd cynllun gofal ar gael ar y maes yma ac roedd y claf wedi bod yn gwrthod meddyginiaeth. <p>Rhaid mynd i'r afael â'r meysydd a nodir.</p>	<p>Rheoliad 15 (1) (a) (b) ac (c)</p>

² Y ganolfan gweithgareddau/sgiliau galwedigaethol yw The Hub.

<p>2. Cynhaliwyd adolygiad o'r ystafell driniaeth/clinig ar ward Aberteifi a chanfuwyd y materion canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> a. Roedd y llyfr ar gyffuriau a reolir yn datgan nad yw Tramadol yn gyffur a reolir. Mae hyn yn anghywir. b. Roedd y llyfr ar gyffuriau a reolir yn cynnwys nifer o addasiadau/dyddiadau wedi'u croesi allan a chofnodion wedi'u hysgrifennu dros gofnodion eraill. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd cadarnhau beth oedd wedi digwydd. c. Nid oedd nifer wedi'i restru yn y golofn 'nifer a dderbyniwyd' sy'n dwyn y teil 'cyffuriau a gafwyd' pan gafwyd cyffuriau. d. Roedd llofnod wedi cael ei roi ar gyfer meddyginiaeth cyn rhoi'r feddyginiaeth (gweler tudalen 11 yn y llyfr cyffuriau a reolir) ac roedd 'canslwyd' wedi cael ei ychwanegu pan na chafodd y cyffur ei roi mewn gwirionedd. e. Nid oedd stoc o eli Xylopoct ar gyfer claf D ac nid oedd erioed wedi cael ei roi. f. Ar gyfer claf D, nid oedd uchafswm dogn ar gyfer Ibuprofen yn ôl y gofyn (PRN). g. Roedd claf E wedi cael presgripsiwn ar gyfer eli Daktacort i drin llabed croen abdomenol ond nid oedd unrhyw aelod o staff yn gwybod unrhyw beth am hyn ac nid oedd sôn am hyn mewn unrhyw gynllun gofal. h. Nid oedd tystiolaeth o gymryd camau gweithredu priodol yn dilyn rhai o archwiliadau fferyllol Ashton. <p>Rhaid rhoi sylw i'r meysydd a nodir uchod.</p>	<p>Rheoliad 15 (5) (a) a (b)</p>
<p>3. Mae angen cynnal adolygiad cynhwysfawr o weithgareddau ar wardiau. Yn ystod ein hymweliad ni welwyd digon o weithgareddau ar wardiau ac roedd cleifion yn cwyno am y diffyg gweithgareddau ystyrlon ar y wardiau.</p>	<p>Rheoliad 15 (1) (a) (b) ac (c)</p>
<p>4. Roedd nifer o gleifion o wardiau Caernarfon, Aberteifi a Chaerffili'n cwyno am ddiffyg sesiynau seicolegol neu dan rai amgylchiadau llai o sesiynau. Rhaid ymlynu wrth sesiynau seicolegol, ac o dan amodau eithafol lle mae angen ail-amserlennu rhaid cyfathrebu gyda'r claf.</p>	<p>Rheoliad 20 (1) (a)</p>
<p>5. Rhaid hybu cyfleoedd addysgol. Roedd diffyg cyfleoedd addysgol i gleifion ac roedd llawer o gleifion a fyddai'n elwa o raglen addysgol.</p>	<p>Rheoliad 20 (1) (a)</p>

<p>6. Roedd adborth gan y nyrsys a oedd newydd eu cofrestru'n dynodi eu bod yn teimlo nad oeddent yn cael eu cefnogi ddigon yn eu rôl. Rhaid cynnal adolygiad o'r system o ddysgawdwriaeth.</p> <p>7. Mae angen cynnal adolygiad ar frys o le dydd ar wardiau Aberteifi a Chaerffili, gyda golwg ar gynyddu'r lle/ystafelloedd dydd sydd ar gael i gleifion.</p> <p>8. Cynhaliwyd adolygiad o gwynion ac fe wnaed yr arsylwadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Roedd diffyg o ran anfon llythyr cydnabod amserol at achwynwyr ac nid oedd llythyr cydnabod ar y ffeil ar gyfer rhai achwynwyr. b. O ran y gŵyn â'r cyfeirnod 31/2004, a wnaed ym mis Ebrill 2014, nid oedd canlyniad ar y ffeil na log ar gyfer y gŵyn ac nid oedd tystiolaeth i'r achwynydd o achos yr oedi. c. Nid oedd tystiolaeth o unrhyw wersi a ddysgwyd. d. Nid oedd rhai ffurflenni cwynion wedi cael eu cwblhau'n llawn â chanlyniadau. 	<p>Rheoliad 20 (1) (a) a (2) (a)</p> <p>Rheoliad 26 (2) (c)</p> <p>Rheoliad 24 (2) a (5)</p>
<p>Rhaid cynnal adolygiad o'r modd yr ymdrinnir â chwynion.</p>	
<p>9. Roedd diffyg tystiolaeth o system oruchwylio ar gyfer staff meddygol. Rhaid gweithredu system gadarn o oruchwyliaeth ar gyfer staff meddygol.</p>	<p>Rheoliad 20 (2) (a)</p>
<p>10. Mae angen adolygiad o drefniadau rheoli wardiau yn benodol ar gyfer y rheolwr sy'n rheoli dwy ward heriol.</p>	<p>Rheoliad 20 (1) (a) a (b)</p>

Monitro dan y Ddeddf Iechyd Meddwl – Gweinyddu'r Ddeddf

Fe wnaethom adolygu'r dogfennau cadw statudol ar gyfer 6 o'r cleifion dan gadwad a oedd yn cael gofal ar 3 o'r wardiau ar adeg ein hymweliad. Cafodd y pwyntiau canlynol eu nodi ac mae angen eu cynnwys yn eich cynllun gweithredu:

- 11. Nid oedd tystiolaeth o graffu meddygol gan weithwyr meddygol proffesiynol mewn perthynas â Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Rhaid bod tystiolaeth o graffu meddygol ar gael.
- 12. Nid oedd hawliau cleifion i gael mynediad at wasanaethau Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol wedi'u cofnodi.

13. Nid oedd y cofnod o asesiad o alluedd ar gyfer cleifion D ac F, ward Aberteifi gan y Clinigwr Cyfrifol (CC) newydd ar gael. Rhaid cwblhau hwn ar unwaith.

14. Rhaid i rifau cyswllt gwasanaethau Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol fod ar gael i'r cleifion, gan nad oedd yr wybodaeth hon wedi'i chynnwys ar rai posteri.

Mae'n ofynnol i chi gyflwyno cynllun gweithredu manwl i AGIC erbyn **19 Awst 2014** a hwnnw'n nodi'r camau gweithredu yr ydych eisoes wedi'u cymryd yn ogystal â'r rhai yr ydych yn bwriadu'u cymryd i fynd i'r afael â'r holl faterion uchod. Dylai'r cynllun gweithredu nodi amserlenni a manylion y sawl a fydd yn gyfrifol am gyflawni'r cam gweithredu. Pan fydd AGIC wedi cytuno bod y cynllun yn briodol bydd yn ofynnol i chi ddarparu diweddariadau misol ar gynydd.

Ar ôl derbyn y llythyr hwn mae'n ofynnol i chi wneud sylwadau ar gywirdeb ffeithiol y manylion a nodir ac ar ôl i ni gael eich cynllun gweithredu, bydd copi o'r llythyr rheoli hwn a chopi o'ch cynllun gweithredu yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Gallwn gynnal ymweliad pellach i sicrhau bod y materion uchod wedi cael sylw priodol a byddwn yn cynnal ymweliadau mwy mynych os byddwn yn pryderu nad yw camau gweithredu angenrheidiol yn cael eu cyflawni'n brydlon.

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn ddiymdroi os byddwch yn dymuno trafod cynnwys y llythyr hwn.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mr Carwyn Price, Rheolwr Cofrestredig yn ysbyty Heatherwood Court.

Yn gywir



Mr John Powell
Pennaeth Rheoleiddio

cc Mr Carwyn Price, Heatherwood Court, Llantrisant Road, Penycoedcae,
Pontypridd CF37 1PL